❖ Gŵyl Nadolig Crist

Tôn: 'Wele'n gwawrio'

Gŵyl Nadolig y Mab unig,
anfonedig gan Dduw Dad,
awn hyd Fethlem, canwn anthem,
diolch 'ddylem uwch pob brad;
daeth y Crewr a'r Cynhaliwr
yn Waredwr i'r holl fyd:
awn mewn hyder gyda gwylder
at Ryfeddod Nêr mewn crud.

Gŵyl y Geni 'ddaeth i'n llonni,
ac i'n codi'n blant i Dduw;
er ein pechod a phob gwrthod,
trwy'i gyfamod byddwn byw;
i'r Mab annwyl ar ei Ddygwyl
rhoddwn breswyl iddo 'nawr; –
croeso calon, nid croes greulon
ddwg acenion Nef i lawr.

Gŵyl y Gobaith i'r ddynoliaeth:
genedigaeth Iesu glân,
fe ddaeth atom, marw drosom
i fyw ynom: – seinier cân
fry i'r nefoedd yn oes oesoedd,
doed cenhedloedd ag un llef;
ni bydd tristwch na thywyllwch,
daw brawdgarwch lle bydd Ef.

Tudor Davies